| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Ysgrifennu adroddiad |
| Disgrifiad: | Defnyddio erthygl bapur newydd am y Blitz Tair Noson |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau**<br>* **Siarad**<br>Bl3:<br>• trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud fel bod y gwrandawyr yn gallu dilyn<br>• siarad yn eglur, gan amrywio'r mynegiant i helpu'r gwrandawyr<br>Bl4:<br>• trefnu sgwrs er mwyn i gynulleidfaoedd gwahanol ddilyn yr hyn sy'n cael ei ddweud<br>• addasu sgwrs gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaeth rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig â grŵp ehangach<br>Bl5:<br>• siarad yn eglur, gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol i gynulleidfa fawr<br>Bl6:<br>• siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais, i gadw diddordeb y gwrandawyr<br>* Gwrando<br>Bl3:<br>• gwirio eu bod yn deall drwy ofyn cwestiynau perthnasol neu gynnig sylwadau perthnasol<br>Bl4:<br>• ar ôl gwrando, ymateb gan fynegi barn am yr hyn y mae'r siaradwr wedi'i ddweud<br>Bl5:<br>• gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr<br>Bl6:<br>• gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr<br>* Cydweithio a thrafod<br>Bl3:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan rannu syniadau a gwybodaeth<br>• siarad yn bwrpasol er mwyn cyflawni tasg mewn grŵp<br>Bl4:<br>• cyfrannu i drafodaeth grŵp, gan helpu pawb i gymryd rhan<br>• helpu grŵp i ddod i gytundeb<br>Bl5:<br>• cyfrannu i drafodaeth grlp, gan gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb dros gyflawni'r dasg yn dda<br>• ychwanegu at a datblygu syniadau dysgwyr eraill mewn trafodaethau grŵp<br>Bl6:<br>• cyfrannu'n bwrpasol i drafodaeth grŵp er mwyn dod i'r canlyniadau y cytunwyd arnynt<br>• codi pwyntiau o drafodaeth grŵp, gan gytuno neu anghytuno a rhoi rhesymau<br><br>**Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** |

| | |
|---|---|
| | * **Strategaethau Darllen**<br>Bl3:<br>• defnyddio sgiliau gweledol<br>• adnabod dibenion gwahanol testunau<br>• adnabod sut mae testunau'n cael eu trefnu<br>Bl4:<br>• cip ddarllen (sgimio) i gael prif neges testun neu'r prif syniad mewn pennod<br>• llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodwedidon mewn testun<br>• adnabod sut mae testunau'n gwahaniaethu yn ôl eu pwrpas, eu strwythur a'u cynllun<br>Bl5:<br>• defnyddio ystod o strategaethau i gip ddarllen<br>• llithr ddarllen (sganio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol<br>• adnabod nodweddion testunau<br>Bl6:<br>• defnyddio ystod o strategaethau i ddod o hyd i wybodaeth<br>• darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol<br><br>**Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd**<br>* **Ymateb a dadansoddi**<br>Bl3:<br>• defnyddio gwybodaeth o destun wrth drafod neu wrth ysgrifennu.<br>• gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn y maent yn ei ddarllen a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod a'i gredu am y pwnc.<br>Bl4:<br>• dewis a defnyddio gwybodaeth a syniadau o destunau<br>• deall sut y gall rhywbeth gael ei gynrychioli ar ffurfiau gwahanol<br>Bl5:<br>• cydgasglu a threfnu gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol<br>• pwys a mesur a yw'r cynnwys yn ddibynadwy<br>Bl6:<br>• gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn<br>• ystyried a yw testun yn effeithiol i gyfleu gwybodaeth a syniadau<br><br>**Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>* **Ystyr, dibenion, darllenwyr**<br>Bl3:<br>• ysgrifennu at ddibenion a darllenwyr gwahanol gan ddewis geiriau er mwyn creu amrywiaeth a diddordeb<br>Bl4:<br>• addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd, gan ddewis geiriau addas<br>Bl5:<br>• ysgrifennu gyda'r diben yn amlwg gan ddangos ystyriaeth i'r darllenydd<br>Bl6:<br>• addasu arddull ysgrifennu i'r darllenydd a'r diben |

| | |
|---|---|
| | * Strwythur a threfn<br>Bl3:<br>• defnyddio strwythur elfennol ar gyfer ysgrifennu<br>Bl4:<br>• defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu<br>Bl5:<br>• defnyddio nodweddion sy'n dangos strwythur yr ysgrifennu<br>Bl6:<br>• addasu strwythurau wrth ysgrifennu i gyd-destunau gwahanol |
| Testun Dylan Thomas | Dim |
| Offer angenrheidiol: | • Darnau allan o bapur newydd<br>• Llinell Amser Dylan Thomas |
| Trefn a awgrymir: | • Gan ddefnyddio Llinell Amser Dylan Thomas, trafodwch gyfnod y bardd yn gweithio gydag *Evening Post* Abertawe (ar y pryd enw'r papur oedd *South Wales Daily Post and Cambria Daily Leader*).<br>• Rhannwch y ddwy ddelwedd o'r penawdau o fis Hydref 1931. Roedd Dylan wedi bod yn gweithio i'r papur ers rywbryd yn ystod mis Gorffennaf. Ar beth mae'r dysgwyr yn sylwi o ran gosodiad a chynnwys y tudalennau blaen?<br>• Anogwch nhw i feddwl am:<br>- Pennawd amlwg, bachog, cyflythreniad, difrifol, cryno...<br>- Cyfeirio: cryno, cyflwyno'r stori, tynnu sylw, gosod yr olygfa a chrynhoi...<br>- Prif gorff y testun: paragraffau, amser gorffennol, brawddegau eglur sy'n ateb 'pam?' a 'sut?'<br>- Ffotograff a Phennawd: delwedd lawn emosiwn, sy'n rhoi rhagor o wybodaeth...<br>- Ailgyfeirio: yn gorffen adrodd beth sydd wedi digwydd, symud i'r amser presennol i ddweud beth yw'r sefyllfa nawr...<br>• Cloriannwch ddigwyddiadau'r Blitz Tair Noson o'r gwersi blaenorol a defnyddiwch y dolenni a'r darn o ffilm ar y wefan. Mewn parau ac mewn grwpiau gwnech nodiadau ar bob un o'r digwyddiadau pwysicaf drwy'r Gaseg Eira. (Unigolion yn rhannu syniadau â phartner ac yna maen nhw'n dod at ei gilydd i'w trafod. Mae pob pâr yn rhannu â phâr arall, gan ddyblu'r syniadau. Mae pob grŵp o bedwar yn ymuno wedyn â grŵp arall o bedwar ac yn trafod mwy eto.)<br>• Mewn grwpiau neu fel dosbarth, edrychwch ar Dudalen Flaen yr *Evening Post*, sy'n adrodd am y Blitz Tair Noson. Trafodwch y pennawd a'r cyfeiriad. Ydy'r dysgwyr yn sylwi ar rywbeth arall?<br>• Gall y dysgwyr lunio eu hadroddiad eu hunain am y Blitz Tair Noson gan ddefnyddio'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu mewn gwersi blaenorol a thrwy ymchwil. |
| Gweithgareddau estyn: | • Gellid creu tudalennau blaen gan ddefnyddio *Textease*, *MS Word* neu aps fel *Pages*, *Comic Life* a *Create Front Page News*.<br>• Edrychwch ar y gwahaniaethau rhwng papurau newydd y gorffennol a rhai heddiw. |

| | |
|---|---|
| | • Beth yw nodweddion papurau newydd tabloid a phapurau safonol?<br>• Gallai'r dysgwyr ddefnyddio strwythur a gosodiad tudalen flaen i ysgrifennu adroddiad am ddigwyddiad yn yr ysgol. |
| Cysylltiadau perthnasol: | Gwefannau sydd â disgrifiadau a darluniau o'r Blitz 3 Noson<br>http://www.southwales-eveningpost.co.uk/PICTURES-Swansea-Blitz-1941/story-20650279-detail/story.html<br><br>http://www.explore-gower.co.uk/explore/swansea/world-war-ii<br><br>http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=42116 |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Efallai bydd angen templed Tudalen Flaen ar ddysgwyr gwaelod Cyfnod Allweddol 2 i'w helpu i drefnu eu syniadau. |